# Arian y Loteri Genedlaethol yn helpu cymuned i ddarganfod ei bryngaer gudd

22/03/2019



Mae'r Loteri Genedlaethol wedi rhoi bron i £830,000 i gr?p cymunedol yng Nghaerdydd i ddysgu mwy am y dreftadaeth Ganoloesol a'r Oes Haearn ar stepen ei drws, a'i helpu i'w ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Mae'r fryngaer 6,000 mlwydd oed yng Nghaerau yn cael ei hystyried yn arwyddocaol yn rhyngwladol ac fe'i bernir fel 'Treftadaeth mewn Perygl' gan CADW ond ar hyn o bryd nid yw'n cael ei gwarchod, gan olygu ei bod yn agored i fandaliaeth, tipio anghyfreithlon a defnydd o gyffuriau.

Yn awr, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, bydd pobl leol nid yn unig yn cael cyfle i ddysgu am bwysigrwydd y safle a'i hanes, ond yn chwarae rhan wrth ddiogelu ei ddyfodol.

Nod y prosiect yw cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r safle o 50%, a bydd y gwaith yn cynnwys:

- Ailddatblygu hen Neuadd Gospel gerllaw i fod yn Ganolfan Treftadaeth Bryngaer Gudd a gofod ar gyfer grwpiau cymunedol, gan gynnwys caffi dros dro
- Creu cyfres o lwybrau treftadaeth ac arwyddion i helpu pobl i archwilio a deall y safle
- Creu lle chwarae newydd i blant ar thema
- Creu gerddi newydd a gofalu am goetiroedd ac adeiladau hanesyddol gerllaw, gan gynnwys gweddillion Eglwys y Santes Fair


Mae’r fryngaer 6,000 mlwydd oed yng Nghaerau yn cael ei hystyried yn arwyddocaol yn rhyngwladol ac fe’i bernir fel ‘Treftadaeth mewn Perygl’ gan CADW

## Dod â phobl at ei gilydd

Gan weithio gydag ysgolion lleol, bydd hanes yr ardal a’r fryngaer yn cael ei addysgu i bobl ifanc fel rhan o’r cwricwlwm newydd, tra bydd pobl o bob oed yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau, diddordebau a chyfeillgarwch newydd drwy helpu gydag archwiliadau archeolegol ar y safle.

Mae partner y prosiect, Prifysgol Caerdydd, hefyd yn noddi nifer o ysgoloriaethau israddedig a ariennir yn llawn ar gyfer pobl ifanc leol ac wyth o ysgoloriaethau eraill i oedolion astudio yn y brifysgol, gan gynorthwyo i chwalu’r rhwystrau at addysg uwch yn y gymuned.